Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# ACT Schools

# Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2018

# gan


# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag ACT Schools

Ysgol ddydd arbennig annibynnol yw ACT Schools, sydd â champysau yng Nghaerdydd a Chaerffili. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 16 oed sydd ag anghenion addysgol arbennig yn benodol i anawsterau penodol, emosiynol ac ymddygiadol, ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Gweinyddir yr ysgol gan ACT (Holdings) Ltd, sef is-gwmni Coleg Caerdydd a'r Fro.

Mae 84 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae tua 19% o ddisgyblion yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol, ac mae gan 21% ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Dyma ymweliad monitro blynyddol cyntaf yr ysgol ers iddi agor ym mis Ebrill 2018.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae staff yn yr ysgol yn adnabod eu disgyblion yn eithriadol o dda ac yn rhoi cymorth gwerthfawr iddynt yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymddiriedaeth gref yn y staff, sy'n eu helpu i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu, datblygu hyder yn eu gallu a gwneud cynnydd addas. Yn ystod gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn ffafriol i arferion ystafell ddosbarth, yn mynd ati'n gyflym i gwblhau tasgau rhagarweiniol ac yn dal ati i ganolbwyntio. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at ei gilydd a'r staff, ac maent yn cydweithio'n effeithiol wrth weithio mewn parau neu grwpiau bach.

Ers i'r ysgol agor, mae uwch arweinwyr a staff wedi gweithio gyda'i gilydd yn agos i rannu arfer orau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, ysgrifennu cynlluniau gwaith a chynllunio gwersi. Rhennir cynlluniau gwersi yn rheolaidd ar draws y campysau erbyn hyn, gan gynnwys cynllunio wythnosol a thymor byrrach. Mae'n ddefnyddiol i staff allu mynd at y cynlluniau i nodi a thrafod arfer orau, sy'n arwain at gynllunio cryfach ar draws yr ysgol ac yn lleihau anghysondebau yn y maes hwn.

Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfarwyddyd clir ar gyfer gwella darpariaeth a deilliannau i ddisgyblion. Er enghraifft, yn ogystal â gwelliannau mewn cynllunio, mae'r ysgol yn cynnal rhaglen arsylwi cymheiriaid i gryfhau ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r rhaglen hon yn galluogi staff i gydweithio â phartneriaid dysgu proffesiynol i fyfyrio ar fodelau addysgu a dysgu o ysgolion sy'n cyflawni'n dda, a chysylltu hyn â'u harferion eu hunain. Mae'r ysgol wedi penodi 'Hyrwyddwr Cymraeg' hefyd i gryfhau'r trefniadau ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu partneriaethau cryf a buddiol gyda llawer o awdurdodau lleol sy'n ariannu dysgwyr yn yr ysgol. Mae'r trefniadau partneriaeth hyn yn cynnwys cyfarfodydd cynnydd misol gydag uwch arweinwyr o'r ysgol, a swyddogion arweiniol o'r awdurdod lleol. Mae'r cyfarfodydd yn monitro cynnydd disgyblion yn drylwyr, ac yn cytuno ar gamau gweithredu ar gyfer gweithgarwch dilynol, lle bo'n briodol. Gall y camau gweithredu hyn gynnwys manteisio ar wasanaethau arbenigol yr awdurdod fel y gwasanaeth seicoleg addysg neu'r timau athrawon arbenigol, er enghraifft, i fodloni anghenion disgyblion yn well.

### *Meysydd i'w datblygu*

At ei gilydd, megis dechrau datblygu y mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol, ac mae angen eu cryfhau mewn sawl maes. Mae'r meysydd hyn, er enghraifft, yn cynnwys peidio â defnyddio data yn ddigon da i werthuso perfformiad, a thargedau ar gyfer gwella nad ydynt yn ddigon manwl gywir neu fesuradwy.

Nid yw rôl cynorthwywyr addysgu wedi'i datblygu'n ddigonol, y mae'r ysgol eisoes wedi'i nodi fel rhan o'i chynllunio ar gyfer gwelliant.

### Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1. Gryfhau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

**A2. Datblygu cynorthwywyr addysgu ymhellach, a gwneud y defnydd gorau ohonynt**

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

***Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

***Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

***Safon 6: Darparu gwybodaeth***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

***Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/02/2019